



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Jess Daniel - Uned Busnes y Cyngor - Gwasanaethau Llywodraethol (01443 424110)

Bydd cyfarfod o'r **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** yn cael ei gynnal yn **Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX** ar **DYDD IAU, 5ED MAWRTH, 2020** am **5.00 PM**.

MAE MODD I AELODAU NAD YDYN NHW'N AELODAU O'R PWYLLGOR AC AELODAU O'R CYHOEDD OFYN I ANNERCH Y PWYLLGOR YN YSTOD Y CYFARFOD SY'N YMWNEUD Â'R MATER SYDD WEDI'I NODI. RYDYN NI'N GOFYN EICH BOD CHI'N RHOI GWYBOD AM EICH BWRIAD I SIARAD DRWY E-BOSTIO **GWASANAETHAUCYNLLUNIO@RCTCBC.GOV.UK** ERBYN 5PM AR DYDD MAWRTH, 3 MAWRTH 2020, GAN NODI A FYDDWCH CHI'N SIARAD YN GYMRAEG NEU'N SAESNEG.

MAE'N BOSIB BYDD TREFN YR AGENDA'N NEWID ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR.

AGENDA

Tudalennau

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr eitem mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

Nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

4. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 23 Ionawr, 2020.

5 - 8

CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU CYMERADWYO GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU

5. CAIS RHIF: 18/1384

Adeiladu 5 annedd ar wahân ynghyd â ffordd wasanaeth a gwaith cysylltiedig (derbyniwyd y cynllun safle diwygiedig ar 28.03.19).
TIR GWAG ODDI AR STRYD MEIRION, ABERDÂR, RhCT

9 - 22

6. CAIS RHIF: 19/0660

Defnyddio tir ar gyfer gweithgareddau cyflymder isel, nad ydyn nhw'n gystadleuol, fel profi cerbydau, hyfforddiant gyrwyr/beicwyr, profiadau i gwsmeriaid, gweithgareddau hyrwyddo, diwrnodau lansio cynnyrch, ffilmio a ffotograffiaeth ac ati o ran beiciau modur a cheir (derbyniwyd y Datganiad Dylunio a Mynediad Diwygiedig ar 12/02/20) (derbyniwyd ffin ddiwygiedig y llinell goch ar 12/02/20) (derbyniwyd y Cynllun Splay Vision diwygiedig ar 12/02/20).
TIR AR SAFLE CWM HWNT, ODDI AR HEOL Y MYNYDD/HEOL Y PLWYF/Y RHIGOS, HIRWAUN, CF44 9UR

23 - 36

7. **CAIS RHIF: 19/0829**
Trosi eglwys yn 8 fflat (derbyniwyd cynllun parcio diwygiedig ar 06/12/2019)
EGLWYS SAESNEG BEDYDDWYR CALFARI, CLIFF TERRACE, TREFFOREST, PONTYPRIDD
- 37 - 46**
8. **CAIS RHIF: 19/0973**
Garej ar y llawr caled presennol gyda phatio ar y to. (Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig ar 04/12/2019). (Derbyniwyd y Cyfrifiadau Strwythurol ar 04/12/2019).
65 TYNBYEDW TERRACE, TREORCI, CF42 6RL
- 47 - 54**
9. **CAIS RHIF: 19/1223**
Adeiladu ystafell ddosbarth unllawr wedi'i chysylltu â'r ysgol gyfredol (Derbyniwyd Cynlluniau Diwygiedig ar 17/01/20).
YSGOL ARBENNIG BRESWYL Tŷ COCH, LANSDALE DRIVE, TONTEG, PONTYPRIDD, CF38 1PG
- 55 - 64**
10. **CAIS RHIF: 20/0046**
Gosod mast Polyn Telegraph 14.097m sy'n cynnwys 3 antena wedi'u gorchuddio a dysglau trosglwyddo 2x 300mm, gosod 2 gabinet offer, 1 cabinet mesurydd trydanol, 1 generadur a dysgl loeren 1x 1200mm ar bolyn 2.6m o uchder, a chyfansoddyn ffens wedi'i fyrddio ar gyfer Rhwydwaith Argyfyngau Gwasanaeth EE, gyda gwaith cysylltiedig.
FFORDD Y RHIGOS TUA'R GORLLEWIN, A4061 Y RHIGOS, HIRWAUN, CF44 9UE
- 65 - 72**
- ARGYMHELLION I'W GWRTHOD GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU**
11. **CAIS RHIF: 19/1214**
Estyniad llawr cyntaf yn y cefn
16 STRYD LLYWELYN, HENDREFORGAN, Y GILFACH-GOCH, Y PORTH, CF39 8UA
- 73 - 78**
12. **CAIS RHIF: 19/1272**
Cadw newid tir o fod yn wag i safle ar gyfer un teulu o deithwyr (ailgyflwyno ôl-weithredol).
ROSE ROW, HEOL PENDERYN, HIRWAUN, ABERDÂR, CF44 9SQ
- 79 - 96**

13. CAIS RHIF: 20/0006

Adeiladu annedd ar wahân, sawl haen ac iddi dair ystafell wely.
**TIR YN NHERAS GLANFFRWD, YNYS-Y-BŴL, PONTYPRIDD, CF37
3LW**

97 - 106

ADRODDIAD ER GWYBODAETH

**14. GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU
GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Rhoi gwybod i Aelodau am y canlynol, ar gyfer y cyfnod 27/01/2020 a
21/02/2020.

Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd.
Penderfyniadau Dirprwyedig – Ceisiadau wedi'u cymeradwyo a'u
gwrthod gyda rhesymau.
Trosolwg o Achosion Gorfodi.
Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig.

107 - 122

15. MATERION BRYD

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn rhai brys
yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu

Cylchrediad:-

Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu:

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu
(Y Cynghorydd S Rees a Y Cynghorydd G Caple)

Y Cynghorydd J Bonetto, Y Cynghorydd P Jarman, Y Cynghorydd D Grehan,
Y Cynghorydd G Hughes, Y Cynghorydd J Williams, Y Cynghorydd S Powell,
Y Cynghorydd W Owen, Y Cynghorydd R Yeo ac Y Cynghorydd D Williams

Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Pennaeth Cynllunio
Rheolwr Datblygu Priffyrdd a Mabwysiadu Priffyrdd
Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol